

Cynllun Datblygu Lleol Torfaen a Fabwysiadwyd (hyd 2021)

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth, Cydnerthedd Ecosystemau a Datblygiad Chwefror 2024

Crynodeb Gweithredol

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English*

Cyflwyniad, Pwrpas a Statws y CCA

Mae'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) yma'n rhoi manylion ynglŷn â sut bydd Cyngor Torfaen yn sicrhau bod datblygiad yn y fwrdeistref sirol yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Mae hyn yn gyson â datganiad y Cyngor o argyfyngau natur a hinsawdd, polisiau Cynllun Datblygu Lleol a dyletswyddau bioamrywiaeth gwella cydnerthedd ecosystemau o dan Ran 1, Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 ('dyletswydd A6') a nod Cymru Gydnerth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD) 2015.

Y prif bolisi yn y Cynllun Datblygu Lleol Torfaen Mabwysiedig (2013) yw Polisi S7 (Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol) sy'n gofyn bod argymhellion ar gyfer pob datblygiad newydd yn ystyried yn llwyr cyd-destun yr amgylchedd lleol naturiol ac wedi ei adeiladu a'i nodweddion arbennig. Polisiau perthnasol eraill yw S2, S3, S8, BW1, C1, C2 a BG1 y gellir eu gweld yn llawn trwy <https://www.torfaen.gov.uk/cy/Related-Documents/Forward-Planning/Adopted-Torfaen-LDP-Written-Statement.pdf>

Cafwyd ymgynghoriad ar ddrafft o'r CCA hwn am gyfnod o chwe wythnos gyda sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried yn y fersiwn derfynol yma a gymeradwywyd i'w mabwysiadu gan benderfyniad y Cyngor ar 27^{ain} Chwefror 2024. Mae wedi ei baratoi yn unol â'r polisiau o fewn: -

- Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021)
- Cynllun Datblygu Lleol Torfaen mabwysiedig (Rhagfyr 2013)

A'r cyfarwyddyd yn:

- Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)
- Polisi Cynllunio Cymru, 12fed Rhifyn (Chwefror 2024)
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Dull y CCA


Mae amlinelliad o ddyletswyddau a gofynion ymgeiswyr a'r Cyngor ei hun yn eglur, o ystyried y fframweithiau deddfwriaethol a pholisi perthnasol. Mae Adran 2 yn esbonio sut bydd polisiau CDLL Torfaen yn cael eu gweithredu ac yn amlinellu sut y bydd cydymffurfriad â'r polisiau yma'n cynorthwyo gyda dangos sut y bydd cynigion datblygiad yn cyd-fynd â'r Ddyletswydd A6 a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae'n rhoi cyfarwyddyd penodol mewn perthynas â safleoedd dynodedig, gan gynnwys dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Mae Adran 3 y CCA yn cyflwyno'r dull fesul cam fel sydd yn y polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ceisio cyflwyno ystyriaeth o fioamrywiaeth i'r broses rheoli datblygiad ar yr adeg gynharaf posibl, er mwyn cael y canlyniad mwyaf cynaliadwy ac i helpu i leihau oedi a chostau ychwanegol. Mae Adran 3 wedi ei ffarmio fel cyfarwyddyd ynglŷn â sut eir i'r afael â bioamrywiaeth mewn datblygiadau o bob maint, o fân geisiadau gan berchnogion tai, i fyny at ddatblygiadau ar raddfa fawr. Mae'n rhoi cyfarwyddyd ar arfer gorau ar amseru, graddfa, natur a chynnwys arolygon ecolegol ac asesiadau o gynefinoedd, safleoedd a rhywogaethau.

Mae adrannau 4 a 5 yn esbonio egwyddorion y dull fesul cam yn fwy manwl ac y gosod allan sut bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw effeithiol amgylcheddol negyddol yn cael eu hosgoi yn y lle cyntaf, yna eu gwneud mor fach â phosibl, eu lleddfu ac, fel dewis olaf, gwneir yn iawn amdanynt. Rhoddir cyfarwyddyd hefyd ynglŷn â sut bydd y gofyniad yn y cyfarwyddyd cenedlaethol i sicrhau gwelliant "ble bynnag mae hynny'n bosibl" yn cael ei weithredu trwy'r system gynllunio, gan dalu sylw i'r graddau iddynt y mae gwelliant yn gymesur â phob cynnig cynllunio. Mae'r adran hefyd yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â sut bydd y wybodaeth berthnasol o'r arolwg ecolegol yn cefnogi'r broses hon. Mae Adran 6 yn rhoi adnodd o wybodaeth ychwanegol.

Mae CCA Seilwaith Gwyrdd drafft ar wahân wedi cael ei gynhyrchu ar yr un pryd a dylid cyfeirio ato ochr yn ochr â'r CCA yma.

Y Dull Fesul Cam



Mae'r dull fesul cam yn berthnasol i ddatblygiadau o bob math a maint, o fân geisiadau a datblygiadau gan berchnogion tai, i fyny at ddatblygiadau ar raddfa fawr. Serch hynny, mae'r cyfarwyddyd yma'n eglur bod y camau y mae gofyn eu cymryd yn gymesur â'r cynnig a'r effaith posibl ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Mae'r egwyddorion trosfwaol allweddol fel a ganlyn: -

- Dylai bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau gael eu hystyried ar yr adeg gyntaf posibl mewn datblygiad, fel rhan o ddull integredig o ddyluniad y datblygiad, er mwyn dangos dealltwriaeth lawn o werth bioamrywiaeth safle, cydnerthedd ei ecosystem a'i berthynas â'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach.
- Mae cyflwyno gwybodaeth ecolegol amserol a phriodol yn hanfodol. Yn arbennig, ble mae Ecolegydd y Cyngor wedi nodi bod rhaid cyflwyno Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (AERh) gyda chais ynghyd ag unrhyw arolygon rhywogaethau ychwanegol a nodir yn yr AERh, gallai methu â chyflwyno'r wybodaeth arwain at wrthod y cais. Bydd y Cyngor yn cyfeirio at y cyfarwyddyd CIEEM wrth benderfynu a yw'r wybodaeth ecolegol a gyflwynwyd wedi ei chwblhau gan ymgynghorydd ecolegol priodol sydd wedi dilyn y fethodoleg adrodd ecolegol priodol.
- Dylai pob ymgeisydd ystyried ble mae angen arolygon ac asesiadau Rhywogaethau Anffroddol Ymledol (INNS).
- Mae gofyn i ymgeiswyr ddangos sut mae'r cynnig a'r mesurau bioamrywiaeth cysylltiedig wedi ymateb i'r wybodaeth ecolegol.
- Bydd y Cyngor ond yn ystyried trafod mesurau i wneud yn iawn ble dangoswyd tystiolaeth eglur a gwydn nad oes modd osgoi na lleddfu.
- Nid fydd gwneud yn iawn yn dderbyniol ar gyfer cynefinoedd anadnewyddadwy (e.e. coedwigoedd hynafol).
- Bydd y Cyngor yn ceisio cael mantais net ar gyfer bioamrywiaeth ym mhob datblygiad, yn gymesur â maint y datblygiad ac o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar y safle ac yn gyfagos.
- Ble mae angen cymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyaeth SuDS, cynghorir yn gryf ymgysylltiad cynnar a chyflin â phroses y Corff. Ymgynghorir ag Ecolegydd y Cyngor yn mewn perthynas â cheisiadau i'r Corff a gall rhoi cyngor ar gamau ecolegol angenrheidiol.

Deall Safle

Dylid sicrhau dealltwriaeth gwaelodlin o'r effeithiau bioamrywiaeth ac ecolegol a'r cyfleodd a gyflwynir gan ddatblygiad. Dylid sgrinio i benderfynu ar bresenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig ar sail y data a ddarperir gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru. Mae CDLI a fabwysiadwyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol wedi ei mapio ar gyfyngiadau, a gellir eu gweld trwy'r ddolen hon.

<https://www.torfaen.gov.uk/cy/PlanningAndDevelopment/Planningpolicy/LocalDevelopmentPlan/Local-Development-Plan.aspx>

Mae Atodiad 1 y CCA yn rhoi rhestr wirio o'r rhywogaethau a chynefinoedd sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan fathau penodol o ddatblygiad, yr arolygon angenrheidiol a'r tymhorau priodol ar gyfer arolygon. Mae Arolygon Ecolegol yn cael eu hystyried yn ddilys am gyfnod o 2 flynedd, ac ar ôl hynny, bydd angen arolygon newydd.

Efallai bydd angen arolygon, asesiadau neu drwyddedau ychwanegol yn ôl y gyfraith gan gynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), Trwydded Rhywogaethau Gwarchoddedig (TRhG) (ar wahân i wneud cais am ganiatâd

cynllunio), Trwydded Datblygiad Rhywogaethau Gwarchoddedig Ewropeaidd (RhGE) a Thwydded Rhywogaethau Gwarchoddedig y DU.

Cynghorir yn gryf bod timau dylunio'n darparu 'Cynllun Cyfyngiadau a Chyfleoedd Ecolegol' (ECOP), sy'n ffordd effeithlon ac effeithiol o gyfathrebu'r prif faterion a godwyd yn yr adroddiadau ecolegol technegol manwl. Os caiff ei baratoi'n ddigon cynnar, mae'r ECOP yn dechlyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau cyn y cais a dyluniadau sy'n cael eu diweddarau ym mhob cam o'r broses o ddylunio a chynllunio'r datblygiad.

Yn unol â'r dull creu lle, bydd y Cyngor yn disgwyl i gynigion ddangos sut mae dyluniadau:

- yn ymateb i'r holl dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â bioamrywiaeth a nodwyd a nodweddion seilwaith gwyrdd: ac
- wedi esblygu yn unol â'r dull fesul cam.

Cyflwyno Cais Cynllunio

Erbyn yr amser y bydd cais cynllunio'n barod i'w gyflwyno, dylai nodweddion ecolegol y safle fod wedi eu hystyried yn llawn a dylid fod wedi dilyn camau'r dull Fesul Cam. Dylai unrhyw effeithiau a nodir fod wedi eu hosgoi, eu lleihau neu eu lleddfu yn nyluniad y cynnig sy'n cael ei gyflwyno a'u cyfiawnhau'n llawn yn y cais.

Dylai'r arolwg neu asesiadau ecolegol perthnasol y mae eu hangen gael eu cyflwyno gyda'r cais. Mae'n rhaid i'r ecolegydd a gyflogir gan yr ymgeisydd weithio bob amser gyda'r canllawiau cydnabyddedig perthnasol ar aroglon a lleddfiadau a safonau yn y diwydiant a dylai roi cyfiawnhad ar sail tystiolaeth am unrhyw wyro o'r canllawiau yma.

Ble mae ceisiadau'n cael eu cyflwyno heb wybodaeth ecolegol, gallan nhw gael eu dilysu ond nid eu cymeradwyo hyd nes y bydd unrhyw waith ecolegol wedi ei wneud a'i gyflwyno a'i gymeradwyo. Ble mae arolygon ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno ac yn argymhell gwaith arolygu pellach, ac nid yw hyn yn cael ei gyflwyno, gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrthod y cais.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurder, pan na fydd gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu cynnig fel rhan o gais, rhoddir pwysau sylweddol ar absenoldeb hynny, ac oni bai bod ystyriaethau materol sylweddol eraill yn dangos fel arall, bydd yn angenrheidiol gwrthod caniatâd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod diffyg tystiolaeth ecolegol o effaith negyddol ar fioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol a'r datblygiad, yn ystyriaeth faterol sylweddol yn hyn o beth.

Yn unol â PCC a dyletswydd A6, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y datblygiad yn rhoi manteision net ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd y Cyngor felly'n ystyried gyda'r ymgeisydd pa gyfleoedd sy'n bodoli o fewn neu du allan i'r datblygiad i gynnig gwelliannau i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Ble mae'r Cyngor yn penderfynu ei fod yn rhesymol gofyn am leddfiadau, gwneud yn iawn neu welliannau, ac nid oes modd cynnwys hyn yn nyluniad y datblygiad na'i greu ar y safle, gall geisio sicrhau'r mesurau yma i ffwrdd o'r safle.

Efallai byd y Cyngor yn argymhell cymeradwyaeth yn amodol ar Gytundeb adran 106 / rhwymedigaethau cynllunio. Cytundebau rhwng y datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio sy'n rhwymo'n gyfreithiol neu gytundeb unochrog gan y datblygwr sy'n cael ei orfodi gan yr Awdurdod Cynllunio o dan A106 y Ddeddf Cynllunio 1990 yw Rhwymedigaethau Cynllunio

ac maen nhw'n cynnwys ymrwymiad i ymdrin ag effeithiau datblygiad mewn ffordd a fydd yn ei wneud yn dderbyniol o safbwynt cynllunio, pan fyddai fel arall yn cael ei wrthod. Bydd gofyn am rwymedigaethau o'r fath ble mae angen darpariaeth i wneud yn iawn oddi ar y safle neu ble mae angen cyfraniadau ariannol er mwyn sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth.

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw Cyngor Torfaen yn rhoi amod o arolygon rhywogaethau gwarchoddedig ac ni fyddent yn ystyried gwneud hynny ar gyfer unrhyw waith datblygiad a gynlluniwyd. Yn unol â'r dull fesul cam, dylid gwneud gwaith arolygu ar yr adeg fwyaf cynnar er mwyn i gamau i gynnal a gwella bioamrywiaeth gael eu hintegreiddio yn nyluniad y datblygiad.

Bydd paratoi a gweithredu cynllun rheoli a monitro priodol fel arfer yn cael ei gytuno fel rhan o'r cynlluniau y mae gofyn eu cyflwyno i gael caniatâd. Dylai ymgeiswyr nodi y bydd datblygiadau mwy yn gofyn am Gynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladwaith (CEMP) sy'n nodi manylion parthau dim mynediad, ffensys gwarchodol a chamau ymarferol eraill.

Manylion Cyswllt

Os oes gennych chi gwestiynau am y CCA, cysylltwch â ni ar bob cyfrif.

Ar gyfer cyngor ar reolaeth datblygiad, cysylltwch â ni trwy planning@torfaen.gov.uk

Ar gyfer cyngor ar bolisi cynllunio ac ecoleg, cysylltwch â ni trwy ldp@torfaen.gov.uk